# Beth sy'n wir a beth sy'n ffug ar-lein? Holiadur Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru



## Comisiynydd Plant Cymru

## Chwefror 2025

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# **Cyflwyniad**

Yn ystod mis Chwefror 2025 gofynnon ni i blant a phobl ifanc a oeddent yn gwybod beth oedd yn wir neu'n ffug ar-lein.

Roedd yr holiadur yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni'n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Mater y Mis, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu'n uniongyrchol â'r holl ysgolion sy'n rhan o'n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr holiadur, dangoson ni fideo i'r plant a'r bobl ifanc, yn cyflwyno'r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau fel os oeddent erioed wedi credu rhywbeth gwelsant ar-lein a droiodd allan i fod yn rhywbeth ffug a beth y gallant wneud i weld os yw rhywbeth yn wir ai peidio. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni'n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda'i gilydd cyn ateb yr holiadur. Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau'r holiadur; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau'r holiadur ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o'r drafodaeth.

Atebodd 569 o blant a phobl ifanc yr holiadur yn unigol. Bu 292 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o'u barn. Cymerodd ystod eang o oedrannau ran, o blant o dan 6 i rai at 18 oed. Derbyniwyd ymatebion gan ysgolion a grwpiau o fewn 19 awdurdod lleol.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i'r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

# <u>Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc</u>

## ATEBION OEDRAN CYNRADD:

**Wyt ti wedi gweld rhywbeth ffug (fake) arlein o'r blaen?**

Ydw (266) - 67%
Dwi ddim yn siwr (95) - 24%
Nac ydw (38) - 10%

**Taset ti'n gweld rhywbeth ffug arlein, beth faset ti'n ei wneud? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Dweud wrth oedolyn (rhiant neu athro) (253) - 65%
Anwybyddu fe (185) - 47%
Reportio fe i'r gwefan/platfform (137) - 35%
Dweud wrth ffrind (79) - 20%
Dwi ddim yn gwybod/rhywbeth arall (36) - 9%

**Os rwyt ti'n gweld rhywbeth arlein sydd yn teimlo'n ryfedd, sut wyt ti'n gwybod os ydy e'n wir neu beidio? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Gweld os ydy gwefannau neu blatfformau eraill yn dweud yr un peth (224) - 56%
Gofyn i athro/athrawes (214) - 54%
Gofyn i deulu neu ffrindiau (160) - 40%
Edrych ar bwy sydd wedi ysgrifennu neu greu y post (136) - 34%
Dwi ddim yn gwybod (51) - 13%
Rhywbeth arall (45) - 11%
Dwi wastad yn credu bod pethau'n wir (10) - 3%

**Wyt ti'n meddwl bod hi'n hawdd i gredu rhywbeth arlein sy'n ffug?**

Ydw (195) - 52%
Nac ydw (101) - 27%
Dwi ddim yn gwybod (79) - 21%

**Wyt ti wedi rhannu rhywbeth arlein o'r blaen ac wedyn wedi sylweddoli bod e'n ffug?**

Nac ydw (240) - 62%
Dwi ddim yn siwr (90) - 23%
Ydw (59)- 15%

**Beth oedd e?**

Dyma themâu’r atebion mwyaf cyffredin:

- Newyddion ffug / gwybodaeth ffug am ffeithiau/gemau
- Fideos ffug
- Wedi’i twyllo / hacio

**Beth wyt ti'n meddwl gall blatfformau a gwefannau ei wneud er mwyn helpu pobl i wybod beth sy'n wir neu ffug arlein? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Cael gwared ar wybodaeth ffug (245) - 62%
Gwneud hi'n haws i ffeindio mas os yw gwybodaeth yn wir neu beidio (211) - 53%
Creu fideos a thudalennau wê i helpu pobl i allu ffeindio gwybodaeth ffug (161) - 41%
Gadael i bobl reportio gwybodaeth ffug yn hawdd (135) - 34%
Rhywbeth arall (72) - 18%

# ATEBION OEDRAN UWCHRADD:

**Wyt ti wedi gweld rhywbeth ffug (fake) arlein o'r blaen?**

Ydw (75) - 49%
Dwi ddim yn siwr (56) - 36%
Nac ydw (23) - 15%

**Beth oedd e?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Sibrydion am enwogion (celebrities)
- Ddim yn cofio / ddim yn gwybod
- Storïau / newyddion ffug

**Taset ti'n gweld rhywbeth diddorol arlein a oedd yn edrych/swnio'n ffug, beth fyset ti'n ei wneud? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un)**

Anwybyddu fe (104) - 68%
Edrych ar blatfform/gwefan arall i ffeindio mas os ydy e'n wir (57) - 37%
Gofyn i oedolyn (39) - 25%
Reportio fe (20) - 13%
Rhannu fe gydag eraill ta beth (11) - 7%
Rhywbeth arall/ dwi ddim yn gwybod (9) - 6%
Gofyn i athro/athrawes am help (5) - 3%

**Sut wyt ti fel arfer yn gweithio mas os ydy rhywbeth rwyt ti'n gweld arlein yn wir neu beidio? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Dwi'n edrych ar blatfformau/gwefannau eraill (71) - 48%
Dwi'n edrych ar bwy sydd wedi ei bostio/creu (59) - 40%
Dwi'n gofyn i deulu neu ffrindiau (55) - 37%
Dwi ddim yn gwybod/rhywbeth arall (26) - 18%
Dwi fel arfer yn awgrymu bod popeth yn wir (16) - 11%
Dwi'n gofyn i athro (9) - 6%

**Wyt ti'n meddwl bod e'n hawdd i gredu rhywbeth ffug arlein?**

Ydw (112) - 74%
Dwi ddim yn gwybod (22) - 15%
Nac ydw (18) - 12%

**Wyt ti wedi rhannu rhywbeth arlein o'r blaen ac wedyn wedi sylweddoli bod e'n ffug?**

Nac ydw (78) - 51%
Dwi ddim yn siwr (47) - 31%
Ydw (27) - 18%

**Beth oedd e?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Newyddion ffug
- Ddim yn gwybod
- Tocynnau cyngerdd

**Beth sy'n gwneud e'n haws i gredu rhywbeth arlein? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Os ydy e'n dod o wefan neu gyfrif rydw i'n gyfarwydd â (111) - 72%
Mae'n edrych yn broffesiynol (er enghraifft sut mae e wedi ei ddylunio) (50) - 33%
Mae'n gyfateb gyda rhywbeth rydw i'n credu yn barod (47) - 31%
Mae e wedi cael ei rannu gan ffrindiau neu bobl rydw i'n adnabod (40) - 26%
Mae e wedi cael ei rannu gan bobl enwog (35) - 23%
Rhywbeth arall/dwi ddim yn gwybod (15) - 10%

**Beth wyt ti'n meddwl dylai cwmniau cymdeithasol a gwefannau ei wneud i stopio gwybodaeth ffug? (Rwyt ti'n gallu dewis mwy nag un ateb)**

Rhoi labelu ar bostiau gwahanol sy'n rhybuddio pobl bod nhw efallai yn ffug (94) - 61%
Cael gwared ar bostiau sydd yn ffug (87) - 57%
Gadael defnyddwyr i reportio gwybodaeth ffug yn hawdd (43) - 28%
Helpu pobl i ddysgu sut i weithio mas beth sy'n ffug neu beidio (40) - 26%
Rhywbeth arall (8) - 5%

**Beth wyt ti'n meddwl dylen nhw ei wneud?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Peidio postio newyddion ffug
- Ddim yn gwybod
- Dileu'r post

# Cwestiynau i athrawon

**Sut oedd y grwp yn gwybod beth sy'n go iawn neu'n ffug arlein?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Edrych ar ffynonellau o wybodaeth arall
- Ddim yn teimlo'n realistig
- Defnyddio gwybodaeth eu hunain

**Ydyn nhw wedi credu rhywbeth o'r blaen a wedyn dysgu ei fod yn ffug?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Ydyn, ac wedi ymateb gydag enghreifftiau
- Ymateb cymysg

**Beth oedd y ffyrdd gorau i weithio mas os yw rhywbeth yn go iawn neu beidio, yn ôl y grwp?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Defnyddio gwefan / dolen / adnoddau dibynadwy
- Ymchwilio'r wybodaeth
- Gofyn i riant

**Oedd gyda nhw unrhyw syniadau neu sylwadau eraill?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Rhaid bod yn ofalus ar-lein

# Diweddglo

Er bod nifer gymharol isel o blant a phobl ifanc a gymerodd rhan yn yr holiadur wedi dweud wrthym eu bod wedi rhannu rhywbeth ar-lein a ddarganfuwyd yn ddiweddarach ei fod yn anghywir (18% o ddysgwyr ysgolion uwchradd a 15% o gynradd), dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi gweld gwybodaeth y gwnaethant ddarganfod yn ddiweddarach i fod yn wybodaeth ffug.

Mae dros hanner (52%) o ddisgyblion ysgolion cynradd, a 74% o ddisgyblion ysgolion uwchradd, yn meddwl bod hi'n hawdd i gredu fod rhywbeth yn ffug ar-lein.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos i ni fod mwyafrif o blant a phobl ifanc wedi gweld gwybodaeth ffug ar-lein. Fodd bynnag, dywedodd llai na hanner o ddisgyblion ysgol uwchradd eu bod wedi cymryd camau i wirio'r ffynhonnell neu chwilio am ffynonellau amgen, gyda 68% yn dweud y byddent yn ei anwybyddu ac yn parhau i sgrolio.

Mae'r mwyafrif eisiau i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol neu wefannau gymryd camau i ychwanegu rhybuddion i'r cynnwys, neu i ddileu cynnwys sy'n gamarweiniol.

Rydym wedi rhannu canlyniadau'r holiadur hwn gydag Ofcom i lywio eu gwaith diogelwch ar-lein parhaus ac i swyddfeydd Comisiynwyr Plant eraill y DU wrth i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â phryderon diogelwch ar-lein.